# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-16-2006)

### Dyddiad y Cyfarfod: 23 Mai 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgor

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Brynle Williams, Jeff Cuthbert

Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-15-2006

## 2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cyfarfod diwethaf felly awgrymodd y Cadeirydd y dylid mynd ati yn syth i drafod y ddeddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 O ran yr Offerynnau Statudol a ganlyn, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1288 - Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006**

**LC1289 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Ffioedd Arolygu) (Cymru) 2006**

## Eitem 5: Craffu ar Ddeddfwriaeth ar ôl Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2007. Adroddiad Drafft yr Adolygiad

5.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y cyfnod casglu tystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad wedi dod i ben a bod yr Adroddiad Drafft wedi'i ddosbarthu i'r Aelodau. Cymeradwyodd y ffordd yr oedd yr adroddiad wedi'i ddrafftio, gan ddweud ei fod yn adroddiad cryno a manwl. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau roi sylwadau ar yr adroddiad.

5.3 Wrth drafod, gwnaed y pwyntiau a ganlyn:

Roedd yn hanfodol meithrin cysylltiadau agosach rhwng y cyfreithwyr ar ddwy ochr y

Cynulliad a Phrifysgolion Cymru i sicrhau bod digon o gyfreithwyr, cyfieithwyr ac ieithyddion cyfraith ar gael i gynnal ansawdd deddfwriaeth ddwyieithog ac i ateb y gofynion o ran swmp y gwaith.

Cytunwyd y dylid anfon llythyr, ynghyd â chopi o'r adroddiad, at y Llywydd a'r Prif Weinidog yn tynnu'u sylw at ddau bwynt penodol, sef:

- y pryderon ynghylch cadw cofnod papur diogel o'r ddeddfwriaeth;
- gofynion arbennig y broses o wneud deddfwriaeth ddwyieithog.

Cam i'w gymryd: Cadeirydd/Cynghorwyr Cyfreithiol/Clerc

Awgrymwyd hefyd y dylid annog y Prif Weinidog a'r Llywydd i gynnal seminar ar ddwyieithrwydd deddfwriaeth Cymru. Byddai modd gwahodd cynrychiolwyr sefydliadau addysg uwch Cymru, gan gynnwys Prifysgolion Cymru, i'r seminar.

Gofynnodd y Cadeirydd am i baragraff 8.1 yr Adroddiad gael ei fireinio i adlewyrchu'r ffaith nad oedd y Pwyllgor Deddfau am gwestiynu amcanion polisïau, dim ond sicrhau bod y polisïau hynny'n cael eu dwyn i rym yn y ffordd orau bosib.

Cam i'w gymryd: Cynghorwyr Cyfreithiol/Clerc

5.4 O wneud y newid hwnnw, cytunwyd ar yr Adroddiad drafft. Cytunwyd hefyd y dylid argraffu'r Adroddiad a'i anfon at y Llywydd, y Prif Weinidog, yr holl dystion, Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgor newydd ar y Rheolau Sefydlog. Cam i'w gymryd: Clerc.

Camau i'w cymryd

Gofynnwyd i'r Cadeirydd anfon llythyr at y Llywydd a'r Prif Weinidog, ynghyd â'r adroddiad;

Gofynnwyd i'r Cynghorydd Cyfreithiol fireinio paragraff 8.1 yr Adroddiad;

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu i gyhoeddi ac i ddosbarthu'r adroddiad.

## Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Mehefin 2006.